**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS –10-01 (min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher, 20 Mehefin 2001** |
| **Amser:** | **2.00 tan 5.40 pm** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |

**Aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

| | |
|---|---|
| Kirsty Williams (Cadeirydd) | Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| Peter Black | De Orllewin Cymru (Eitemau 1, 2 a 3)` |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Brian Gibbons | Aberafan |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Jane Hutt (Gweinidog) | Bro Morgannwg |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding | Canol De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alyn a Dyfrdwy (Eitemau 1, 2 a 3) |
| Lynne Neagle | Tor-faen |
| Rod Richards | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru (Eitemau 1, 2 a 3) |
| Gwenda Thomas | Castell Nedd (Eitemau 1, 2 a 3) |
| **Yn Bresennol** | |
| Sandy Blair | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Hugh Gardner | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Tony Garthwaite | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Y Cynghorydd Meryl Gravell | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Rhian Huws Williams | Cyngor Canolog ar gyfer Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol (CCETSW) |
| Mario Kreft | Fforwm Gofal Cymru |
| Stan Rupa | UNSAIN |
| Malcolm Russell | Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Kevin Sullivan | Cydffederasiwn NHS Cymru |
| Richard Thomas | Cydffederasiwn NHS Cymru |

| | |
|---|---|
| Paul Williams | Ymddiriedolaeth NHS Bro Morgannwg |
| **Swyddogion** | |
| Dr Ruth Hall | Prif Swyddog Meddygol |
| Ann Lloyd | Cyfarwyddwr, NHS Cymru |
| Rosemary Kennedy | Prif Swyddog Nyrsio |
| John Morgan | Is-adran Gwasanaethau Iechyd |
| Mike Shanahan | Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol |
| Helen Thomas | Grë p Polisi Cymdeithasol |
| Graham Williams | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| Bob Woodward | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | |
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau**

1.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau nac unrhyw amnewidiadau.

1.2 Atgoffwyd yr aelodau o'r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiannau cyn cymryd rhan yn y gweithrediadau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Peter Black, aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Geraint Davies, Fferyllydd ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Tâf;
- Brian Gibbons, yn briod â gweithiwr cymdeithasol;
- Brian Hancock, Ymgynghorydd hunan-gyflogedig iechyd, diogelwch a'r amgylchedd,

Ymarferydd Diogelwch Cofrestredig (RSP) ac yn briod â bydwraig gymunedol;

- Dai Lloyd, Ymarferydd Cyffredinol ac aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Janet Ryder, aelod o Gyngor Tref Rhuthun

**Eitem 2: Blaenoriaethu a Gwariant Llywodraeth Leol ar Wasanaethau Cymdeithasol**
**Papur: HSS-10-01(p.1)**

2.1 Diolchodd y Cynghorydd Meryl Gravell, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), i'r Pwyllgor am y cyfle i gyflwyno safbwyntiau'r Gymdeithas. Dywedodd bod gwasanaethau cymdeithasol yn gyfrifoldeb statudol allweddol ar lywodraeth leol ac roedd ansawdd ac argaeledd gwasanaethau yn cyfrannu at amrywiaeth eang o amcanion. Nodwyd yr agenda ar gyfer newid ym Mhapur Gwyn Gwasanaethau Cymdeithasol 1999 ac roedd ymrwymiad gwirioneddol ymhlith awdurdodau lleol i ymgymryd â'r agenda gwelliant a newid hon. Bu i'r awdurdodau lleol wynebu cyfnod o newid parhaus ac ad-drefnu. Disgwyliwyd iddynt ymgymryd â meysydd cyfrifoldeb newydd, ond yn ogystal roedd tueddiadau demograffig a galw a disgwyliadau cynyddol yn mynd y tu hwnt i adnoddau.

Croesawyd yr arian ychwanegol a ryddhawyd gan y Cynulliad, fel ag y croesawyd y symudiad tuag at setliad arian tair blynedd. Fodd bynnag, roedd angen cydnabod nad oedd awdurdodau lleol wedi cyrraedd sefyllfa eto ble roeddynt wedi goresgyn tanariannu hanesyddol. Roedd gwasanaethau ar gyfer pobl hí n, plant a iechyd meddwl oedolion yn enghreifftiau ble na fyddai dyheadau yn cael eu gwireddu heb adnoddau ychwanegol sylweddol. Er gwaetha'r tanariannu a'r pwysau cyllidebol cyffredinol, dangosai'r ffigurau yn

Atodiad B bod gwariant gros yr awdurdodau ar wasanaethau cymdeithasol wedi cynyddu bron i deirgwaith cymaint ag unrhyw wasanaeth arall, a ddangosai'r flaenoriaeth a roddir i wasanaethau cymdeithasol.

Roedd yn bwysig nad oedd cyllideb y gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei hystyried ar wahân i gyd-destun cyffredinol gwariant awdurdod lleol. Byddai hyn yn dod yn gynyddol berthnasol yn dilyn dyfodiad strategaethau hyblyg, rhyngadrannol a rhyngasiantaethol er mwyn ymateb i anghenion ac er mwyn cyflawni ymyrraeth ac ataliaeth gynnar, ac roedd yn bwysig nodi lle roedd tanariannu mewn gwasanaethau eraill yn creu galw diangen ar wasanaethau cymdeithasol. Roedd y Gymdeithas yn awyddus i gydweithio â'r Cynulliad wrth gytuno ar ganlyniadau a ddiffiniwyd, yr adnoddau angenrheidiol i'w cyflawni a'r dulliau gorau o fonitro a gwerthuso. Teimlwyd y byddai canolbwyntio ar ganlyniadau yn rhoi darlun mwy perthnasol o'r modd yr oedd awdurdodau lleol yn perfformio ac y byddai'n fwy cydnaws â datblygu partneriaethau a threfniadau ariannu rhwng y Cynulliad a llywodraeth leol.

2.2 Dywedodd Hugh Gardner o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (CCGCC) ei fod yn rhannu nifer o safbwyntiau a phryderon CLlLC, yn arbennig o ran cydweithio â'r Cynulliad. Roedd hefyd yn croesawu'r arian ychwanegol ond dywedodd nad oedd ond wedi galluogi gwasanaethau presennol i gael eu cynnal. Credai bod y rhan fwyaf o gynnydd mewn meysydd lle roedd polisïau a disgwyliadau eglur yn bodoli ac mewn achosion lle roedd arian penodol, e.e Plant yn Gyntaf. Byddai'r Gwasanaeth yn gwerthfawrogi amlinelliad eglur o'r adnoddau. Roedd Papur Gwyn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi fframwaith ar gyfer gwasanaeth proffesiynol a ddiffiniwyd yn eglurach a chydweithio â'r sector iechyd.

Teimlwyd yn gyffredinol y diogelwyd gwasanaethau plant ar draul gwasanaethau oedolion, a gwasanaethau rheng flaen wedi eu diogelu ar draul datblygiad rheolwyr. Roedd y gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i ddioddef prinder adnoddau o ran nifer y rheolwyr. Cydnabuwyd bod yr amrywiaeth yn narpariaeth y gwasanaeth ar draws Cymru yn achosi pryder ac roedd y gwaith i ymdrin â hyn yn parhau, ond roedd angen cofio hefyd bod gwahanol anghenion gan wahanol gymunedau.

Mynegwyd pryder ynglí n â digonolrwydd y gwasanaethau ar gyfer yr henoed. Roedd nifer o bobl yn y gymuned yn disgwyl am ofal ar hyn o bryd oherwydd prinder adnoddau. Pe byddid yn mynd i'r afael â gofal yn y gymuned yn hytrach na gofal mewn lleoliad preswyl yna byddai angen buddsoddi sylweddol mewn gofal cymdeithasol. Roedd pryderon hefyd am y pwysau a roddwyd ar y sector preifat/annibynnol a chwaraeai ran enfawr yn y broses o gyflwyno gwasanaethau ond na ellid gwarantu eu dyfodol heb adnoddau digonol.

2.3 Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Roedd rhesymau technegol dros y ffaith mai dim ond 95% o'r arian ychwanegol a ddyrannwyd at ddefnydd y gwasanaethau cymdeithasol. Byddai CLlLC yn darparu manylion ysgrifenedig.
- Gyda chefnogaeth a chydweithio â'r Cynulliad teimlwyd y gellid gweithredu argymhellion yr adolygiadau ar y cyd.
- Roedd angen ymagwedd ar y cyd er mwyn mesur canlyniadau ledled Cymru. Byddai hynny o gymorth i benderfynu i ba raddau roedd canlyniadau'n adlewyrchu'r adnoddau a wariwyd.
- Roedd gweithwyr ym maes gofal cymdeithasol wedi'u digalonni. Prin oedd y cyfryngau yn canolbwyntio ar unrhyw faterion cadarnhaol neu newyddion da yn y maes hwn.
- Nodwyd bwlch o £95m yn lefe yrl adnoddau yr oedd eu hangen i ddiwallu anghenion a aseswyd ar gyfer gwasanaeth cymunedol cynhwysfawr i'r henoed. Byddai CLlLC yn darparu gwybodaeth ategol ar gyfer y ffigur hwnnw.
- Roedd angen newid yr holl ethos o ran y modd y darperir gwasanaethau, er mwyn cynnwys amrywiaeth ehangach o wasanaethau i gynorthwyo annibyniaeth pobl gyhyd â phosibl.
- Roedd angen cynyddu sgiliau rheoli a hefyd denu pobl ifanc i ymuno â'r sector.
- Roedd nifer o awdurdodau eisoes yn ymateb i argymhellion Waterhouse drwy baratoi eu cynlluniau gweithredu o dan y rhaglen Plant yn Gyntaf. Roedd angen ystyried p'un a oedd unrhyw argymhellion nad eid i'r afael â hwy drwy gyfrwng rhaglen Plant yn Gyntaf a fyddai angen adnoddau ychwanegol.
- Roedd gweithio mewn partneriaeth yn parhau yn ei ddyddiau cynnar ond teimlwyd y byddai manteision o ran gallu cyfuno adnoddau ag awdurdodau iechyd yn y dyfodol.
- Roedd rhywfaint o berthynas rhwng perfformiad yr economi â'r galw am wasanaethau cymorth. Yn gyffredinol, dangosai profiad bod newidiadau demograffig a'r gydnabyddiaeth gynyddol o'r graddau nad oedd anghenion gwasanaeth yn cael eu diwallu yn gwrthbwyso manteision gwelliant yn yr economi a llai o ddiweithdra.
- Roedd gan economi cyflog isel oblygiadau o ran y galw cyffredinol ar wasanaethau.
- Byddai buddsoddi mewn datblygu a rheoli polisi yn allweddol o ran cyflwyno gwelliant mewn gwasanaethau.

2.4 Gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol hefyd:

- Dylid ystyried gofyn i'r Comisiwn Archwilio baratoi adroddiad ar weithredu argymhellion Waterhouse yng Nghymru.
- Roedd angen i ganlyniadau fod yn fesuradwy ond heb greu diwylliant "cynghrair". Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i ymagwedd dwy-haen – strategol, ar lefel Cynulliad, ond â'r gallu i adlewyrchu anghenion a phwysau lleol.
- Mynegwyd pryder ynglí n â'r posibilrwydd o golli nifer o leoedd mewn cartrefi gofal annibynnol oherwydd anawsterau adnoddau. Fe'u hystyriwyd yn bartner pwysig o ran cyflwyno gwasanaethau, yn arbennig ar gyfer yr henoed.
- Croesawyd y £7m a nodwyd ar gyfer systemau rheoli gwybodaeth ond ni fyddai'n ddigon pan fyddai'n cael ei rannu rhwng 22 o awdurdodau lleol.

2.5 Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Nid oedd y gweithlu gofal cymdeithasol yn cael y gydnabyddiaeth a'r gefnogaeth a haeddai.
- Darperir £46m o arian ychwanegol ar gyfer y rhaglen Plant yn Gyntaf yn ystod y tair blynedd nesaf.
- Efallai y byddai astudiaeth gan y Comisiwn Archwilio ynglí n â gweithredu Waterhouse yn briodol yn 2002 pan y gellid mesur effeithiolrwydd Plant yn Gyntaf.
- Er bod y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â'r gwasanaethau iechyd wrth ddatblygu trefniadau ar y cyd, ni ellid codi tâl ar bobl am unrhyw wasanaeth gofal iechyd a ddarparwyd.
- Byddai'r Pwyllgor yn ystyried arweiniad ynglí n ag awdurdodau lleol yn codi tâl am ofal cartref yn yr hydref. Dylid gwahodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Tai i ymuno â thrafodaeth y Pwyllgor ar yr eitem hon.
- Byddai Mesur NHS Cymru yn galluogi'r Cynulliad i archwilio drafft ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer Cymru.

Gweithredu

- Byddai CLlLC yn darparu manylion pellach o ran y modd y dyrannwyd arian ychwanegol i'r gwasanaethau cymdeithasol ac o ran y modd yr aseswyd yr angen am £95 miliwn ychwanegol.
- Gwahoddir aelodau o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i ymuno â'r drafodaeth ar godi tâl am ofal cartref, pan fyddai'r ymgynghori presennol wedi cael ei gwblhau.

**Eitem 3: Recriwtio a Chadw'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol**
**Papur: HSS-10-01(p.2)**

3.1 Cyflwynodd Graham Williams, Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ganfyddiadau'r Grë p Gorchwyl a Gorffen y bu'n gadeirydd arno. Roedd aelodau'r grë p yn bresennol hefyd.

3.2 Dywedodd y Prif Arolygydd mai darparu argymhellion ar gyfer datblygu fframwaith strategol oedd y Grë p Gorchwyl a Gorffen, ac nid atebion manwl i'r amrywiaeth o broblemau o ran recriwtio a chadw'r gweithlu gofal cymdeithasol. Ymgynghorodd y Grë p ar raddfa eang. Byddai'r problemau presennol yn gwaethygu pe na eid i'r afael â hwy ac roedd cytundeb y dylid datblygu a chyflwyno strategaeth bwysig hirdymor mewn partneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Byddai hyn yn hanfodol er mwyn gwireddu dyheadau'r Cynulliad am wasanaeth o ansawdd uchel.

3.3 Pwysleisiodd adroddiad Cronfa'r Brenin yr angen i ddarparu gofal priodol ar gyfer yr henoed, a gwella lefelau cyflog, hyfforddiant, a rhwydweithiau cymorth ar gyfer y staff. Roedd angen i'r sector werthfawrogi ei staff, ac ymdrin â mater cyflog ac amodau'r gweithlu. Roedd rhaid ystyried hyn yn ei gyd-destun. Dangosai arolygon gadael bod gweithwyr a adawai'r diwydiant yn gwneud hynny am amrywiaeth o resymau, gan gynnwys cyflogau gwael, pwysau gwaith, cyfleodd datblygu gyrfa gwael a rhwydweithiau cymorth gwael. Fodd bynnag, nid oedd lefelau cyflog o fewn cylch gorchwyl y grë p.

3.4 Dilynodd y cyflwyniad bum prif thema'r cylch gorchwyl ac esboniodd argymhellion y Grë p. Y themâu oedd:

- cydweithio mewn partneriaeth â'r sector er mwyn deall maint a natur y broblem;
- datblygu strategaeth ar gyfer gwella proffil y sector;
- archwilio dichonoldeb partneriaethau cenedlaethol / lleol ar gyfer recriwtio a datblygu gyrfa mewn gofal cymdeithasol, a'r posibilrwydd o ddatblygu cynllun ariannu ar gyfer hyfforddeion;

- cydweithio â chyflogwyr ar draws y sector er mwyn eu helpu i ddatblygu polisïau recriwtio a chadw da yn seiliedig ar yr adroddiad "Mae Angen Pobl ar Bobl";
- datblygu cynigion ar gyfer diwygio hyfforddiant gofal cymdeithasol o fewn cyd-destun y Strategaeth Ansawdd, gan gynnwys adolygiad o drefniadau ariannu.

3.5 Atodir copi o bwyntiau allweddol y cyflwyniad gan gynnwys yr argymhellion.

3.6 Cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Ni ddylid tanbrisio pwysigrwydd cyflog ac amodau ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol er nad oedd yn rhan o gylch gorchwyl y Grë p Gorchwyl a Gorffen.
- Roedd tanbrisio'r gweithlu gofal cymdeithasol yn awgrymu methiant i werthfawrogi'r bobl yr oeddent yn gofalu amdanynt.
- Disgwylir mwy o arbenigedd a rhagor o gyfrifoldeb bellach gan weithwyr yn y Gymuned.
- Roedd gweithwyr gofal yn aml yn gweithio oriau llawer hirach nag a nodwyd yn eu contractau er mwyn darparu gofal digonol, ac felly dylent dderbyn cyflog cyfatebol.
- Dylid rhoi gwerth ar brofiad bywyd, yn ogystal â chymwysterau ffurfiol, a gallai recriwtio pobl ganol oed ddarparu mwy o sefydlogrwydd yn y gweithlu na recriwtio staff iau.
- Roedd y gweithwyr gofal cymdeithasol mwyaf amhrofiadol yn aml yn gweithio â phlant; gyda newid staff o 20% y flwyddyn yn y maes hwn roedd diffyg parhad a oedd yn hanfodol i sefydlogrwydd emosiynol y plant.
- Roedd yn bwysig cynnwys staff rheng flaen mewn trafodaethau ynglí n â'r problemau a gysylltir â recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol, ac nid cynnwys staff ar lefel rheoli'n unig.
- Roedd gan yr Undebau Llafur rôl ganolog i'w chwarae hefyd wrth sicrhau cyflwyniad yr agenda hyfforddiant mewn gofal cymdeithasol, fel y mae ganddynt mewn sectorau eraill.
- Roedd angen sefydlu fforwm partneriaeth yn y sector gofal cymdeithasol, tebyg i'r un sy'n bodoli yn y sector iechyd.

3.7 Rhoddodd Graham Williams yr ymatebion canlynol i'r pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau:

- Roedd yn bwysig cofio'r gwahaniaeth rhwng gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol. Roedd angen i'r gweithlu fod â chymwysterau priodol i'w swydd, ond roedd angen iddynt wybod hefyd bod eu gwybodaeth a'u sgiliau yn cael eu gwerthfawrogi.
- Gallai gwell mynediad at hyfforddiant; gyda chymorth ariannol, a rôl ar gyfer cyflogwyr wyrdroi'r cwymp yn y nifer o bobl a oedd yn astudio am ddiploma mewn gwaith cymdeithasol.
- Tanlinellai'r drafodaeth gan Bwyllgorau'r Cynulliad bwysigrwydd codi proffil y gwasanaeth. Byddai'r Cyngor Gofal yn gallu adeiladu ar sylfeini'r adroddiad.

3.8 Gwnaed y sylwadau canlynol gan aelodau eraill o'r grë p gwaith:

- **Stan Rupa, UNSAIN:** Roedd angen hyfforddi staff i ddarparu gofal o ansawdd, a dylid rhyddhau arian digonol. Roedd y ffaith eu bod yn cystadlu â'r sector manwerthu yn broblem.

- **Rhian Huws Williams, Cyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant Gweithwyr Cymdeithasol:** Roedd partneriaethau rhanbarthol yn cael eu datblygu er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau hyfforddi.

- **Tony Garthwaite, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:** Roedd comisiynu gwasanaethau gan awdurdodau lleol a pholisïau ar wasanaethau a ffioedd yn effeithio ar y geithlu ym mhob sector. Nid oedd Cleientiaid yn poeni am ba sector a ddarparai eu gofal, cyn belled â bod yr ansawdd yn dda. Byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon gweld gweithwyr gofal yn cael gwell cyflog gan fod pobl yn ystyried ansawdd yn gyfystyr â haeddiant.

- **Rhian Huws Williams:** Roedd cyflog, amodau gwaith da a staff profiadol yn ogystal â goruchwyliaeth briodol a rheolaeth gryf yn hanfodol yn enwedig mewn gwasanaethau plant.
- Roedd cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol yn faes a dyfai'n gyflym mewn addysg bellach, ond roedd cyfradd gadael uchel ymysg myfyrwyr ifanc. Gallai hyn fod oherwydd nad oedd y cwrs yn cyflawni eu disgwyliadau, neu oherwydd nad oeddent am ddilyn y llwybr hwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag yn hwyrach yn eu hoes efallai y byddent yn dychwelyd i'r gwasanaeth gan eu bod wedi cadw'u diddordeb. Roedd CGC yn helpu pobl hí n â phrofiad i gymhwyso.

- **Mario Kreft, Fforwm Gofal Cymru:** Roedd angen ymdrin â chymorth ar gyfer gweithwyr gofal hí n yn y sector annibynnol er mwyn recriwtio'n llwyddiannus o'r ffynhonnell bosibl hon o staff.

- **Stan Rupa:** Roedd y ffaith bod pedwar o bum gweithiwr cymdeithasol yn ferched yn ddangosydd pwysig o'r angen i wella cyfartalrwydd cyfle o fewn y gwasanaeth.

3.9 Diolchodd y Gweinidog i'r Grë p Gorchwyl am eu gwaith. Dywedodd bod £500,000 ar gael eleni ar gyfer datblygu'r argymhellion yn yr adroddiad a byddai'r grë p gorchwyl a gorffen yn parhau â'r gwaith ac yn cynghori ar y modd y dylid gwario'r arian. Cytunodd nad oedd cyfraniad a sgiliau'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cael eu cydnabod yn ddigonol. Gellid ystyried fforwm bartneriaeth ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol.

3.10 Cynlluniwyd dadl cyfarfod llawn yn yr hydref ynglí n â recriwtio a chadw'r gweithlu gofal cymdeithasol.

**Eitem 4: Gofal Hirdymor o'r Henoed**
**Papur: HSS-10-01(p.3)**

4.1 Mewn ymateb i'r papur, gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Dadleuai Plaid Cymru o blaid gofal personol am ddim yn ogystal â gofal nyrsio am ddim ac roeddynt yn falch o'r ymrwymiad i edrych ar ddichonoldeb hyn. Diolchodd Dai Lloyd i Rosemary Kennedy a'r Grë p Gorchwyl am eu gwaith rhagorol wrth ddatblygu fframwaith asesu unigol a diffiniad o ofal nyrsio am ddim.
- Mynegwyd siom ynglí n â'r terfyn amser gwanwyn 2002 ar gyfer darparu gofal nyrsio am ddim.
- Mynegwyd pryder y gallai'r Cynulliad fod yn agored i her gyfreithiol a'r costau cysylltiedig o ran darparu gofal nyrsio am ddim.

4.2 Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau, gwnaed y pwyntiau canlynol gan Brian Gibbons a Jane Hutt:

- Y nod oedd gweithredu'r trefniadau newydd o Hydref 2001 ymlaen ar gyfer y sawl sy'n ariannu eu gofal nyrsio ar hyn o bryd a gwanwyn 2002 ar gyfer y sawl sy'n mynd drwy'r broses asesu newydd.
- Roedd y broses asesu newydd yn ymwneud â chyflwyno gwasanaethau i gleifion. Nid prawf cymhwysedd mohono.
- Roedd ymagwedd gyfannol tuag at ofal llwyr i geifion yn cael ei chymryd.

4.3 Gwnaeth Swyddogion y Cynulliad y pwyntiau canlynol hefyd:

- Gallai trefniadau cyfradd unffurf neu gyfradd amrywiol fod yn destun her gyfreithiol.
- Nid oedd ffioedd cartref nyrsio wedi eu rhannu i ofal nyrsio, gofal personol a chostau gwesty a manion. Roedd felly'n anodd mesur pa elfen o'r pecyn oedd gofal nyrsio.
- Gallai materion yn ymwneud â gofal personol fod tu allan i gylch Mesur NHS Cymru. Mae'n debyg y byddai darparu gofal personol am ddim yn galw am ddiwygio Deddf Cymorth Gwladol 1948 a deddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol arall.
- Roedd prinder nyrsys yn yr NHS a'r sector annibynnol. Roedd yn hanfodol bod cartrefi nyrsio yn gallu cynnig telerau ac amodau oedd yr un mor ddeniadol neu ni fyddent yn gallu cydymffurfio â'r gofynion staffio a nodwyd gan yr awdurdod cofrestru.

4.4 Cyfeiriodd y Gweinidog a'r Prif Swyddog Nyrsio at y gwaith yr oedd angen ei gyflawni er mwyn cynnig gofal nyrsio am ddim. Roedd angen sefydlu a phrofi'r meini prawf asesu a hyfforddi nyrsys. Roedd y gwaith terfynol ar y templed ar gyfer gosod y gyfradd unffurf yn cael ei gyflawni.

<u>Gweithredu</u>

- Darperir papur ar y posibilrwydd o ran her gyfreithiol pan fyddai'r Pwyllgor yn cyfarfod nesaf i drafod yr eitem hon.

**Eitem 5: Partneriaethau Cyhoeddus Preifat a Menter Cyllid Preifat (PPP/PFI)**
**Papur: HSS-10-01(p.5) a HSS-10-01(p.5a)**

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Richard Thomas, Paul Williams a Kevin Sullivan o Gydffederasiwn NHS Cymru a gyflwynodd dystiolaeth y Cydffederasiwn ar PPP.

5.2 Mewn ymateb i sylwadau gan Aelodau; gwnaeth Cydffederasiwn NHS y pwyntiau canlynol:

- Dim ond ar ôl cwblhau'r contract y byddai cyfanswm cost PPP yn dod yn amlwg. Nid oedd cynlluniau yn cael eu gwerthuso ar sail costau benthyg yn unig ond ar gyfanswm y costau cysylltiedig, e.e cynllunio, adeiladu, cynnal a chadw, rheoli adnoddau ac ati.
- Ni dderbyniwyd bod PFI yn gyffredinol yn arwain at adeiladu ysbytai llai. Roedd angen datblygu unrhyw gynllun mewn ymateb i angen iechyd a ddiffiniwyd ac roedd angen dangos mai hwn oedd y dull mwyaf cost effeithiol.
- Credwyd na fyddai'n cymryd llawer hirach na chwe mis i asesu p'un ai PPP/PFI oedd yr opsiwn gwerth gorau.
- Ni dderbyniwyd mai canlyniad rheoli gwael oedd diffyg cynnal a chadw. Roedd yn amhosibl cyflawni buddsoddiad o 7½% o'r trosiant a argymhellir ar gyfer cynnal a chadw o gofio'r galw a'r pwysau eraill ar gyllidebau.
- Ni ellid eithrio toriadau staff o'r ffaith bod angen gwneud arbedion ond byddai tîm rheoli da yn mynd trwy'r materion gyda staff a'r sefydliadau a oedd yn eu cynrychioli.

**Eitem 6: Cofnodion Cyfarfod 6 Mehefin 2001**
**Papur: HSS-08-01(min)**

6.1 Cafodd yr eitem hon ei gohirio hyd tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Dydd Mercher, 4 Gorffennaf 2001).